Adolygiad o David Nash: *Cerfluniau'r Tymhorau* yn yr Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd
Dylan Huw
Cylchgrawn Barn, Mehefin 2019
968 gair

Yn un o ystafelloedd cyntaf, mwyaf cynnil, yr arolwg hirddisgwyliedig hwn o waith y cerflunydd a'r artist tir David Nash, mae fideo byr sy'n gosod y naws. Dilynwn hanes un o weithiau'r artist – *Wooden Boulder*, clogfaen pren a gerfiwyd, fel holl waith Nash ers degawdau, ym Mlaenau Ffestiniog – wrth i rymoedd naturiol newid ei safle. Am gyfnod hir mae'r darn o bren yn gorwedd yn heddychlon mewn aber, wedyn mae stormydd yn ei gipio neu ei foddi am flynyddoedd, cyn iddo ailymddangos eto. Gwna'r fideo i ni deimlo dros y clogfaen, gwneud i ni obeithio a galaru ynghylch ei helyntion, mewn modd tebyg i'r ffyrdd y mae ffilmiau Pixar yn ein cyflyru i gydymdeimlo â gwrthrychau difywyd, o geir rasio i roliau *bao*.

Dim ond un enghraifft yw ôl-fywyd y darn enwog hwn – ei daith hir a lliwgar tu hwnt i law yr artist – o'r ffordd y mae holl waith David Nash yn ddibynnol ar bŵer anrhagweladwy natur ar gyfer ei lunio a'i dderbyniad cyhoeddus. Noda'r arddangosfa uchelgeisiol hon, sef canolbwynt rhaglen ein Hamgueddfa Genedlaethol dros yr haf, hanner canmlwyddiant ei ymgartrefiad yng Nghapel Rhiw, Blaenau Ffestiniog, sydd wedi bod yn gartref, yn stiwdio a'n faes chwarae i'r brodor o Surrey ers ei ugeiniau. Mae teitl y sioe, *Sculpture Through the Seasons / Cerfluniau'r Tymhorau*, yn adlewyrchu treigl yr epoc hwn yn ogystal â natur araf, amyneddgar y darnau a gynhwysir sydd, fel gosodwaith, yn creu effaith sy'n ymylu ar fod yn *zen*. Am bedwar mis mae prif orielau'r Amgueddfa yn ymdebygu i ardd yn Eryri; lle braf i fod.

Coed yw deunydd David Nash erioed, a gyda'u boncyffion a'u brigau mae'r artist yn llunio ffurfiadau amhosib. Mae'r berthynas rhwng y weithred o newid tir a'r newid naturiol sy'n digwydd i dir wrth wraidd eu pŵer fel celf, y tu hwnt i'w heffaith fel crefftwaith yn unig. Mae'n bosib, am y rheswm hwn, eu bod nhw'n edrych yn wahanol, ac yn fwy perthnasol i fywyd mewnol y rhai sy'n dod ar eu traws yn haf 2019 nag y buasen nhw cyn hyn, gyda newid hinsawdd o'r diwedd ar frig y drafodaeth wleidyddol-ddiwylliannol. Allai'r Amgueddfa ddim bod wedi disgwyl y fath amgylchiadau ar yr union adeg y byddai *Cerfluniau'r Tymor* ar agor i'r cyhoedd, ond mae'n sicr yn cyfoethogi'r arddangosfa.

*Cork Spire*, y darn cyntaf i'r ymwelydd ei weld, yw'r canolbwynt mawreddog, gan hawlio edmygedd yr edrychwr mwya sinigaidd gyda'i raddfa anferthol. Er mor ddeniadol yw'r *blockbusters* sy'n hawlio'r rhan fwyaf o ofod yr arddangosfa, dwi'n ddiolchgar, serch hynny, ei bod hefyd yn gwneud lle i weithiau llai, gan gynnwys brasluniau ac effemera, sy'n ychwanegu llawer. Gwnaeth y silffoedd o ddarnau llai o waith coed, wedi eu gosod yn ddigydymdeimlad dros waliau cefn y stafelloedd, gymaint o argraff â'r *showstoppers*, heb os.

Wrth gerdded trwy ystafelloedd crand *Cerfluniau'r Tymhorau*, teimlais fod elfen o gelf werinol yn amlygu ei hun fwyfwy. Yn wir, mae'r artist wedi siarad yn blaen am ddylanwad estheteg a phroses cerflunwaith Inuit ar ei waith. Mae ansawdd anorffenedig, heb ei orsaernïo, yn rhedeg trwy ei yrfa, ond mae'n debyg fod agwedd fwy bensaernïol wedi dod yn fwy amlwg yn ystod y degawdau diweddaraf. Am y rheswm hwn, mae teimlad ychydig yn lletchwith i'r ffordd y mae rhai o'r darnau wedi eu gosod ymysg ei gilydd yma. Byddwn i wedi hoffi gweld mwy o greadigrwydd, gan ddefnyddio gofodau y tu hwnt i ystafelloedd arferol arddangosfeydd dros-dro'r Amgueddfa, sy'n teimlo ychydig yn rhy glawstroffobig i werthfawrogi holl ogoniant gwaith sioe sydd ar raddfa

mor fawr. Er mor fanwl a thrawiadol yw'r gweithiau yn y ffordd maent wedi ymateb i natur, nid oes yma gynrychiolaeth fawr o brif gangen arall gwaith David Nash, sef y ffordd y mae'n ymateb i bensaernïaeth dan do.

Mae lletchwithdod hefyd, o bosib, yn perthyn i waith ar bapur sydd wedi ei guddio ynghanol yr arddangosfa. Map o Flaenau Ffestiniog ydyw, wedi ei ffurfio o eiriau (Saesneg) yn llawysgrifen yr artist – *river river river trees trees boulder*, ac yn y blaen – gan greu delwedd o'i gynefin mabwysiedig. Anodd yw osgoi'r teimlad, a amlygir mewn darnau fel y rhain, bod yna fwy i deyrnasiad yr artist dros yr ardal honno a'i holl rinweddau naturiol nag y byddai gwerthfawrogiad arwynebol yn ei ganiatáu. Mae modd cymhlethu, heb os, y ffordd y mae ein sefydliadau wedi cofleidio'r ffigwr hynod sefydliadol hwn – mae'n aelod o'r Academi Frenhinol, wedi derbyn OBE, ac wedi cael ei gynrychioli mewn orielau ledled y byd ers hanner canrif – fel rhan o'n naratif gelfyddydol genedlaethol.

Efallai na fyddwn i wedi gwneud yr sylw hwn petai fy ymweliad cyntaf â'r arddangosfa heb gyd-daro â phrynhawn yr orymdaith fawr dros annibyniaeth yng nghanol Caerdydd, a oedd yn prysur ymgynnull yn ei fan cychwyn y tu allan i'r Amgueddfa tra 'mod i tu fewn. Gydag arddangosfeydd fel y rhain – rhai mor orlawn o weithiau trawiadol, digyfnod, sy'n medru gwneud i bopeth o'u hamgylch ymddangos mor bitw – dwi'n ei chael hi'n anodd weithiau eu gosod mewn unrhyw fath o bresennol, o deimlad bywyd-go-iawn. Roedd y gwrthdaro rhwng y cyffro oedd yn cyniwair y tu allan a'r mawredd diamser o fewn waliau'r Amgueddfa yn un cynhyrchiol, ond roedd yn ychwanegu at y teimlad fod y cerfluniau mawreddog yn perthyn nid yn unig i fan a lle pell i ffwrdd, ond i'r oes o'r blaen hefyd.

Mae'n amlwg mai hirdymhoredd yw thema elfennol gwaith David Nash erioed. Mae'n defnyddio coed i dreiddio i gwestiynau ynglŷn â sut a pham mae rhai pethau'n para neu'n datblygu yn y ffordd y maen nhw, tra bo eraill yn pydru, neu'n diflannu heb rybudd. Wrth gerdded o'r Amgueddfa i ganol torf obeithiol, oedd am orfodi trafodaeth bositif am ddyfodolau posib ein pobloedd, teimlwn fel petai cerfluniau David Nash, o bosib, yn amserol iawn wedi'r cyfan.